

15 Y Bedyddwyr

Ganrif a hanner yn ôl, fel cangen wan o Fedyddwyr yr Aberffraw yr ystyrir yr achos yn Niwbwrch. Yn 1779 ceir hanes David Evans o'r Dolau yn bedyddio deg mewn afon yn agos i Langefni, ac un ohonynt oedd Elin Roberts a fu farw yn 1795.¹ Pregethodd Thomas Morris yn nhî dwy chwaer o'r enw Margaret ac Ann Williams, a bedyddiwyd amryw yma yn 1787, yn eu mysg Mary Williams; Catherine Roberts, morwyn Carnanwen, a'i chwaer Elisabeth, mudanes; Rowland Dafydd a ddaeth yn bregethwr (symudodd ef o Niwbwrch i Llyn); Elin Jones, Ann Williams, &c. Ond wedi ymadawiad Thomas Morris, diflannodd yr achos yn Niwbwrch, megis yn Aberffraw.²

Dywedir bod capel cyntaf y Bedyddwyr yn Niwbwrch wedi ei adeiladu yn Llain Tî'n-lôn. Tô gwellt oedd iddo ond, trwy ryw anffawd, fe aeth ar dân. Yn Awst 1846, cynhaliwyd cenhadaeth o'r enwad gan Dr. Morgan o Gaergybi yn Niwbwrch, Malltraeth ac Aberffraw, ac yn y flwyddyn ddilynol penderfynwyd uno eglwysi Niwbwrch a Brynsiencyn. Yna sicrhawyd llain, 32 llath wrth 23, a berthynai i Dî'n-pydw oedd yn eiddo Griffith Griffiths, Pendref. Prynwyd hen am ,20 gan Samuel Davies o Niwbwrch a Mr. Morgan o Gaergybi,³ ac yma yr adeiladwyd "Seion", y capel presennol, a agorwyd yn ystod wythnos y Sulgwyn yn 1849.

Mesurai'r addoldy newydd 40 troedfedd wrth 30 y tu fewn i'r muriau. Mae'n adeilad o wneuthuriad cadarn, a dan ddrws iddo gyda *portico* yn eu cysgodi, pulpud bychan a ffenestr braf y tu ôl iddo, gyda "set fawr" fechan. Rhwng yr olaf a seddau y gynulleidfa, ac o dan lawr y capel, ceir y "ffynnon" a gludwyd yma mewn trol o gapel "R. J." Llanllyfni, ag enw "R. J" arni o'i waith ei hun.

Fe ddywedir mai Richard Hughes o dueddau Carmel yn Arfon oedd y cyntaf i ofalu am yr achos yma ar ôl agor y capel newydd. Y gweinidog cyntaf ar y ddwy eglwys, Niwbwrch a Brynsiencyn, y ceir sicrwydd amdano, oedd y Parch. W. H. Jones o'r Felinheli a thad Mrs. Hughes (*Mai o Fôn*), Abercegir. Oddeutu 20 oedd nifer yr aelodau yn Niwbwrch y pryd hyn.

/175/Yn 1893 daeth y Parch. J. Gwyddno Williams i ofalu am yr achos; yn ystod ei arhosiad ef bu'r capel yn gaeedig am gyfnod. Ar ei ôl ef daeth y Parch. J. B. Hughes (Dinbych) ac yna'r Parch. Hugh Jones, Manceinion, am ddwy flynedd. Dilynwyd ef gan y Parch. W. Price o Gaergybi, a geisiodd sefydlu achos yn Nwyrn. Bu'r adeilad ar ôl hyn heb wasanaeth ynddo am 11 mlynedd, ond ail-agorwyd ef yn 1928 mewn canlyniad i waith brwdfrydig John Williams, diacon o "Hebron", Kingsland, Caergybi. Bedyddiwyd 17 yn ystod yr amser yma, a gwnaeth ef amryw welliannau ar yr adeiladau â'i law ei hun. Parheir i gael Ysgol Sul a gwasanaeth, ynghyda phregeth, yn gyson yma.

1 Claddwyd Elin Evan Roberts, gwedd, 26 Mehefin 1795 - Cofrestr y Plwyf.

2 *Hanes y Bedyddwyr yn Nghymru*, gan J. Spinther James (Caerfyrddin: 1905) III. 277-8.

3 *Canrif o Ymdrechion Bedyddwyr Mon*, gan -.Frimston.

Y diaconiaid cyntaf gyda'r achos oedd Samuel Davies a John Davies; ac yn ddiweddarach Thomas Williams, Bryn-madog; Griffith Jones, *painter*; William Parry yr Hwntw; Owen Williams, Tî capel; a'i fab Owen Williams, College.

Buddsoddodd John Thomas, Bod-halen, Llanfaethlu, , 100 tuag at yr achos. Y mae Mr. Henry Edwards o Niwbwrch a Mrs. Jane Jones, Pen-cytir, Dwyrn, wedi bod yn ffyddlon iawn i'r eglwys am flynyddoedd.

O fwrw golwg dros lyfr cyfrifon ariannol yr eglwys o 1888 i 1893, gwelir bod y casgliad cyhoeddus bob Sul yn llai na swllt, ond yr oedd "addunedau eglwysig" wythnosol ychydig o geiniogau yn ychwaneg. Diddorol yw rhai o'r taliadau:

1888.	am wyngalchu y capel,	17/-	[85p]
	am lamlac ac umber ⁴	1/11	[10p]
	am ddwy lidiart haearn	, 1-15-0	[£1-75p]
	am ddau ddrws i'r capel	, 1-15-0	["]
	am gario Margret Lewis a		
	Catherine Rowlands i'r Bryn i gael eu bedyddio	1/3	[5p]
	Hydref. i weinidogion am wasanaethu:		
	Parch. E. Evans, Amlwch	8/-	[40p]
	William Roberts, Rhydwyn	8/-	["]
	Thomas, Holyhead	5/-	[25p]
1889.	at y Gymdeithas Gyfieithiadol	2/-	[10p]
		(yn flynyddol)	
	am baentio'r capel	, 3	
	Medi. i bregethwyr y cyfarfod blynyddol	, 3-2-6	[£3-13p]. ⁵

4 Defnyddiau i liwio wyneb y capel.

5 Am rai ffeithiau ynglŷn â'r hanes uchod yr wyf yn ddyledus i'r Parch. W. A. Jones o Gaergybi a Mr. Henry Edwards o Niwbwrch.